## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (MAN I'R DWYRAIN O BUTTINGTON CROSS, TAL-Y-BONT, POWYS) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn Nhal-y-bont yn Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o gyffordd ddwyreiniol Cylchfan Buttington Cross i gyfeiriad y dwyrain am bellter o 250 o fetrau hyd at bwynt wrth ymyl yr annedd a elwir Cambrian Cottage yn Nhal-y-bont.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar y B4388 tua'r de, y B4381 Ffordd Tre'r-llai tua'r gorllewin a'r A483 tua'r gogledd i Gylchfan Buttington Cross. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos (rhwng 22:00 o'r gloch a 06:00 o'r gloch) o 27 Chwefror 2024 hyd 28 Chwefror 2024, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A458 TRUNK ROAD (EAST OF BUTTINGTON CROSS, BUTTINGTON, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Buttington in the County of Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the trunk road that extends from the eastern junction of Buttington Cross Roundabout in an easterly direction for a distance of 250 metres to a point adjacent to the dwelling known as Cambrian Cottage at Buttington.

The alternative route for westbound traffic will be via the southbound B4388, westbound B4381 Leighton Road and northbound A483 to Buttington Cross Roundabout. Vice versa for eastbound traffic.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight (22:00 hours to 06:00 hours) from 27 February 2024 until the 28 February 2024 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government